**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15 Rhagfyr 2014**

## PENODI I GYRFF ALLANOL

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw:

(i) penodi un o aelodau'r Awdurdod i Fwrdd Prosiect Canolfan Adnoddau'r Gwasanaethau Ambiwlans a Thân (CAGAT);
(ii) cadarnhau penodi aelod ychwanegol i'r Bwrdd Pensiynau Lleol.

## Bwrdd Prosiect CAGTA

2 Ers nifer o flynyddoedd mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) yn trafod sefydlu gorsaf ambiwlans/gorsaf dân yn Wrecsam. Yn dilyn adolygiad annibynnol o'r prosiect, penderfynodd ATAGC ym Medi 2013 i barhau gyda'r prosiect. Yna, bu Bwrdd y Prosiect yn ailystyried ei gylch gorchwyl a gwahoddwyd ATAGC i gael cynrychiolaeth ar y Bwrdd er mwyn cael rhywfaint o annibyniaeth yn sicrhau'r prosiect.

3 Mae Bwrdd Prosiect CAGAT yn darparu adroddiadau ysgrifenedig i Bwyllgor Cyflenwi Ansawdd YGAC ac ATAGC, ac mae ganddo bwerau wedi eu dirprwyo'n benodol iddo yn ei gylch gorchwyl. Mae Bwrdd Prosiect CAGAT yn rhan o fframwaith llywodraethu cyffredinol y Gwasanaethau, sy'n ceisio sicrhau bod y bwrdd yn cael y sicrwydd angenrheidiol i allu cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ac effeithlon.

4 Yn y cyfarfod ar 28 Hydref 2013, enwebwyd y Cyng. H McGuill gan y Panel Gweithredol i gynrychioli ATAGC. Roedd yr Aelodau wedi cael cyngor i beidio ag enwebu aelod o Wrecsam oherwydd materion yn ymwneud â datgan buddiannau mewn perthynas â phrynu a gwerthu tir. A'r prosiect yn mynd rhagddo a'r tir wedi ei ddatrys, mae'r Cyng. McGuill yn dymuno sefyll i lawr ac yn teimlo mai doeth fyddai cael aelod o Wrecsam yn cynrychioli GTAGC.

5 Anfonwyd neges-bost at holl aelodau Wrecsam i ofyn iddynt fynegi diddordeb, a rhoddodd y Cyng. G Lowe a'r Cyng. J R Skelland eu henwau gerbron. Fodd bynnag, oherwydd rôl y Cyng. Skelland fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ystyrid y gallai fod gwrthdaro buddiannau petai'n aelod o Fwrdd y Prosiect.

## Bwrdd Pensiynau Lleol

6 Bydd yr Aelodau'n cofio bod Bwrdd Pensiynau Lleol yn cael ei sefydlu ar 1 Ebrill 2015 ar ôl dyfodiad Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 mewn perthynas â Chynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Yn y cyfarfod blynyddol ym Mehefin 2014, fe wnaeth ATAGC benodi'r Cynghorwyr B Dunn, W T Owen a J R Skelland i'r Bwrdd. Fodd bynnag, penderfynwyd erbyn hyn y byddai cael pedwerydd aelod yn cryfhau'r Bwrdd ac yn sicrhau bod cworwm mewn cyfarfodydd. Mae'r Cadeirydd wedi dod at y Cyng. D MacRae yn rhinwedd ei rôl fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, ac mae hi wedi cytuno i fod y aelod o'r bwrdd pensiynau.

## Argymhelliad

7 Gofynnir i'r Aelodau cefnogi penodi:

(i) Y Cyng. G Lowe i Fwrdd Prosiect Adnoddau Gwasanaeth Tân Ambiwlans, a diolch i'r Cyng. McGuill am fynychu cyfarfodydd ers Tachwedd 2013;

(ii) Y Cyng. D MacRae i'r Bwrdd Pensiynau Lleol.